

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23

Mawrth 2023

1. Cyflwyniad

1. Ar 14 Chwefror 2023, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (“y Gweinidog”) gynnig yr Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23 (“y Gyllideb Atodol”),¹ a Nodyn Esboniadol cysylltiedig.² At hynny, cyhoeddwyd ddyraniadau diwygiedig y prif grwpiau gwariant ochr yn ochr â'r dogfennau hyn.³
2. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog yn y cyfarfod ar 1 Mawrth 2023.⁴
3. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 a gafodd ei gosod ar 21 Mehefin 2022.⁵
4. Mae'n nodi nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. At hynny, mae'n cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, Addasiadau i'r Grant Bloc, arian a dynnwyd o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyciadau arfaethedig.
5. Mae'r Ail Gyllideb Atodol hefyd yn cynnwys addasiadau i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru, fel yr ystyriodd y Pwyllgor ar 31 Ionawr 2023.⁶

¹ [Llywodraeth Cymru, Cynnig y Gyllideb Atodol, 14 Chwefror 2023](#)

² [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023](#)

³ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Dyraniadau prif grwpiau gwariant, 14 Chwefror 2023](#)

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023

⁵ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023, 21 Mehefin 2022](#)

⁶ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 31 Ionawr 2023

2. Trosolwg

6. Mae'r Nodyn Esboniadol⁷ yn datgan bod llinell sylfaen adnodd cyllidol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu £276.7 miliwn yn dilyn cyhoeddi amcangyfrifon atodol y DU⁸ wythnos ar ôl gosod Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys:

- Cynnydd o £152.3 miliwn o drosglwyddiadau gydag adrannau eraill Llywodraeth y DU;
- £91 miliwn wedi'i dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- £62.7 miliwn o symiau canlyniadol Barnett;
- £31.9 miliwn, cyllid nad yw'n gyllid Barnett;
- £29.1 miliwn o hawliadau amrywiol ar gronfeydd wrth gefn Llywodraeth y DU;
- gostyngiadau o £57.4 miliwn yn dilyn newid cyllid o adnoddau i gyfalaf; a
- £31.7 miliwn drwy addasiadau grant bloc.

7. O ran cyfalaf, mae gostyngiad net o £30.3 miliwn yn y llinell sylfaen. At hynny, mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- Cynnydd o £57.4 miliwn yn dilyn newid o adnoddau i gyfalaf (gweler uchod);
- £50 miliwn wedi'i dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- £1.8 miliwn o hawliadau ar gronfeydd wrth gefn Llywodraeth y DU;
- £165,000 o drosglwyddiadau Llywodraeth y DU;
- gostyngiadau o £75 miliwn yn ymwneud â rhoi safon cyfrifyddu IFRS16 ar waith;
- £34.7 miliwn o symiau canlyniadol Barnett;
- cyfraniad cyfalaf o £30 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r rhyfel yn Wcráin.

8. Mae yna ostyngiad o £70.3 miliwn mewn cyfalaf trafodiadau ariannol fel rhan o amcangyfrifon atodol y DU ac mae'r llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi gostwng £550.7 miliwn.


⁷ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 12

⁸ Trysorlys EM, Amcangyfrifon Atodol 2022-23, 21 Chwefror 2023

9. Mae incwm treth ddatganoledig wedi cynyddu £22.5 miliwn; £14.2 miliwn o Dreth Trafodiadau Tir ac £8.3 miliwn o Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Nid oes unrhyw newidiadau i gyfraddau treth incwm nac ardrethi annomestig Cymru, nac i brif ad-daliadau benthyca.

Prif Newidiadau

10. Mae'r prif newidiadau a wnaed gan y Gyllideb Atodol hon i'w gweld isod:



Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru⁹ ac Ymchwil y Senedd

	Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf	Newid o Gyllideb Atodol Gyntaf i Ail Gyllideb Atodol
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£10,581m	£325m 3.2%
Cyllid a Llywodraeth Leol*	£4,821m	£102m 2.2%
Y Gymraeg ac Addysg**	£2,362m	-£218m -8.5%
Newid Hinsawdd	£2,966m	£24m 0.8%
Yr Economi	£506m	-£8m -1.6%
Materion Gwledig	£421m	-£1m -0.2%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£359m	£4m 1.1%
Cyfiawnder Cymdeithasol	£242m	-£7m -2.7%

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Llywodraeth Cymru¹⁰ ac Ymchwil y Senedd

⁹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 18

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 18

* Heb gynnwys tua £1 biliwn mewn incwm ardrethi annomestig.

** Yn cynnwys dyraniad o £208 miliwn mewn refeniw anghyllidol yn sgil benthyciadau i fyfyrwyr.

11. Mae'r dyraniadau ychwanegol mwyaf sylweddol i'w cael yn y portffolio lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – sy'n cael £325 miliwn ychwanegol – gyda'r portffolio Cyllid a Llywodraeth Leol yn cael £102 miliwn ychwanegol. Diben y cronfeydd ychwanegol hyn yw darparu'r canlynol:

- Cymorth cyffredinol i'r GIG;
- costau gwresogi ychwanegol y GIG;
- costau parhaus yn ymwneud ag ymateb y GIG i COVID-19;
- dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus; a hefyd
- cefnogaeth yn gysylltiedig â rhyfel Wcráin.¹¹

12. At hynny, mae nifer o drosglwyddiadau a symudiadau cyllid rhwng portffolios Gweinidogion ac o fewn y portffolios hynny, sy'n gyfanswm o £30.2 miliwn.¹²

Defnyddio cronfeydd wrth gefn

13. Mae'r cronfeydd wrth gefn a ddelir yn y Gyllideb Atodol yn cynnwys y canlynol:

- Adnodd cyllidol o £1.5 miliwn (gostyngiad o £150.8 miliwn ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23);
- adnodd angyllidol o £338.9 miliwn (gostyngiad o £360.3 miliwn ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23); a hefyd
- cyfalaf trafodiadau ariannol o £141.6 miliwn (gostyngiad o £72.5 miliwn ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23).

14. Mae'r Nodyn Esboniadol yn dangos bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cynnwys £125 miliwn o refeniw a £50 miliwn o gyfalaf a dynnwyd i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru,¹³ y lefelau uchaf a ganiateir o dan y Fframwaith Cyllidol.

¹¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 18

¹² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 17

¹³ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 8

15. Mewn ymateb i argymhelliad blaenorol y Pwyllgor,¹⁴ rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariadau ar gyllid yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn Adroddiad yr Alldro 2021-22 a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2023.¹⁵ Balans diwedd blwyddyn y Gronfa Wrth Gefn yw £304 miliwn, gyda £242.4 miliwn wedi'i nodi fel adnodd cyllidol a £61.6 miliwn o gyfalaf.¹⁶ Mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys cynlluniau i dynnu i lawr yr uchafswm cyllid a ganiateir yn ystod y flwyddyn o Gronfa Wrth Gefn Cymru – £125 miliwn o reffeniw a £50 miliwn o gyfalaf – a byddai hyn yn gadael £129 miliwn yn y Gronfa Wrth Gefn.¹⁷

16. Wrth egluro'r opsiynau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru o ran rheoli ei sefyllfa diwedd blwyddyn, dywedodd y Gweinidog fod yna ddewisiadau gwahanol wrth i chi gyrraedd diwedd y flwyddyn ariannol o ystyried y gellir symud arian ar draws y meysydd hynny o danwariant. i feysydd lle mae potensial i wario arnynt yn hwyr yn y flwyddyn, neu efallai y byddai'n well ychwanegu arian i'r gronfa wrth gefn.¹⁸

17. Mewn perthynas â 2021-22, mae'r adroddiad alldro yn amlygu bod £179.6 miliwn wedi'i newid o reffeniw i gyfalaf, gan alluogi gostyngiad o £113 miliwn mewn benthyca cyfalaf arfaethedig.¹⁹ Mae tanwariant o £171.8 miliwn, cyllid cyfalaf trafodiadau ariannol hefyd wedi'i ddefnyddio i ariannu ad-daliad cynnar o wariant cyfalaf trafodiadau ariannol blaenorol.²⁰

18. At hynny, eglurodd y Gweinidog sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r adnoddau cyllidol sydd ar gael i reoli ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn fel ei bod yn osgoi'r angen i ddychwelyd cyllid i'r Trysorlys:

“So, all we can do is carry up to £350 million in the Wales reserve; anything beyond that, you have to find other ways to manage or it does get returned to Treasury. So, other ways to manage might include reducing the amount of borrowing that we wanted to do in that financial year. So, that's a tool that you can use at the end, if needed.”²¹

19. Pan ofynnwyd iddi a fyddai Llywodraeth Cymru yn dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd yn ôl i Lywodraeth y DU yn 2022-23, cadarnhaodd y Gweinidog fod yna hyblygrwydd, bellach, yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i ymdopi â thanwariant, felly teimlai'n hyderus (na fyddai unrhyw arian yn cael ei ddychwelyd).²²

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22 2022, Argymhelliad 4

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Alldro 2021-22, 27 Chwefror 2023

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Alldro 2021-22, 27 Chwefror 2023

¹⁷ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 17

¹⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 27

¹⁹ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Alldro 2021-22, 27 Chwefror 2023

²⁰ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar Alldro 2021-22, 27 Chwefror 2023

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 59

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 52

20. O ran a oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau wrth gefn pe bai angen arian ychwanegol i gefnogi cytundebau tâl y sector cyhoeddus y cytunwyd arnynt rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol (mae rhagor o ystyriaeth i ddyraniadau a wnaed mewn perthynas â phwysau cyflog wedi'i chynnwys ym Mhennod 3), cafwyd y sicrwydd a ganlyn gan swyddog y Gweinidog:

*"the money's been allocated ... it's there, it's available, if needed, this financial year. If it isn't, then we're confident that those underspends then, there's room within the Wales reserve for that money to go in."*²³

Hyblygrwydd o ran cyllid

21. Pan ofynnwyd a gafodd Llywodraeth Cymru ei hysbysu ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU o'r effaith gyllidebol y byddai amcangyfrifon atodol y DU yn ei chael ar ei chyllid, cadarnhaodd y Gweinidog y cafwyd hynny ymlaen llaw ac yn gyfrinachol ar 18 Ionawr 2023.²⁴ At hynny, esboniodd y Gweinidog y cafodd Llywodraeth Cymru wybod bryd hynny y gallai unrhyw ddiwygiadau i'r amcangyfrif y tu allan i oddefiant o 10 y cant gael eu cario ymlaen i 2023-24 heb effeithio ar gronfa wrth gefn Cymru, gan ychwanegu bod hwn yn gam bach ymlaen, ond yn sicr ddim yn ddigonol.²⁵

22. At hynny, rhannodd y Gweinidog ei rhwystredigaeth â'r Pwyllgor ynghylch yr effaith ymarferol yr oedd diffyg hyblygrwydd ariannu o un flwyddyn ariannol i'r llall yn ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb:

*"this point itself speaks to the importance of proper flexibilities at year end and, I think, almost an inherent unfairness that we're notified right near the end of the financial year that we'll be having deductions from our budget just because UK Government departments haven't managed to spend their budget. So, that obviously ... puts us in a difficult position."*²⁶

23. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod angen pwerau pellach ar Lywodraeth Cymru yn y maes hwn:

"there's definitely more that we need in terms of the amount of money that we're able to draw down, or to keep in the reserve and to draw down in any year. And then the flexibility to manage over financial years as well, so that when we get that very late injection of cash at the end of the year, being able

²³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 66

²⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 40

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 40

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 42

to carry it over just as a matter of course into the next financial year, I think, would, again, be sensible.”²⁷

24. Pan ofynnwyd iddi am statws presennol y berthynas rhwng llywodraethau'r DU a Chymru ar faterion cyllidol, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi cael cyfarfod cynhyrchiol iawn gyda Phrif Ysgrifennydd diweddaraf y Trysorlys ddechrau mis Chwefror. Ychwanegodd y Gweinidog y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Prif Ysgrifennydd ynghylch cynyddu terfynau tynnu i lawr a bod y ffaith ei fod yn agored i'r drafodaeth honno – ac wedi nodi rhywfaint o barodrwydd cynnar – yn gadarnhaol.²⁸

Barn y Pwyllgor

25. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i reoli ei sefyllfa gyllido yn ystod y flwyddyn fel ei bod yn osgoi gorfod dychwelyd cyllid i Lywodraeth y DU ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23. Yn benodol, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor fod digon o le yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i sicrhau nad y tu hwnt i'r terfynau cario ymlaen.

26. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddi Adroddiad Alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021 i 2022 yn amserol – ac yn enwedig y wybodaeth am falans Cronfa Wrth Gefn Cymru, y gofynnwyd amdani'n flaenorol.²⁹ Mae hyn yn rhoi eglurder mawr ei angen ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei chronfeydd wrth gefn ac yn taflu goleuni ar y modd y caiff y cronfeydd hynny eu defnyddio yn ystod y flwyddyn.

27. Er gwaethaf hyn, hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach a darparu gwybodaeth am falans Cronfa Wrth Gefn Cymru ar sail barhaus, drwy gyhoeddi'r wybodaeth hon mewn dogfennau sy'n cyd-fynd â holl gyllidebau'r dyfodol. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r blaen i gynnwys rhagor o wybodaeth am Gronfa Wrth Gefn Cymru – y tu hwnt i'r hyn a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Alldro – “pan fo hynny'n ymarferol”.³⁰ Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y gallai'r Gweinidog wneud mwy yn y maes hwn i ddarparu'r tryloywder mwyaf posibl ar agwedd ar y gyllideb sy'n aml yn aneglur ac yn anodd ei monitro.

28. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai fod angen newidiadau munud olaf i ddyraniadau'r gyllideb os cytunir ar gytundebau cyflog y sector cyhoeddus erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac mae'n croesawu bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau wrth gefn ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol. Er bod y Pwyllgor yn deall ei bod yn bosibl y bydd newidiadau munud olaf o'r fath yn anochel eleni oherwydd ansicrwydd ynghylch amseriad unrhyw ddyfarniadau cyflog yn y sector cyhoeddus, rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog fod yn onest ynghylch y modd y caiff costau

²⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 81

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 77

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22 2022, Argymhelliad 4

³⁰ Y Pwyllgor Cyllid, ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhelliad Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22, Ebrill 2022, tudalen 3

o'r fath eu cynnwys yn y cyllidebau presennol. Galwn, felly, ar y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd – gan gynnwys unrhyw ddyraniadau ychwanegol a wnaed gan Lywodraeth Cymru – mor agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol â phosibl.

29. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael cadarnhad o'r arian a oedd ar gael iddi drwy amcangyfrifon atodol y DU yn gyfrinachol tua diwedd mis Ionawr, wnaeth roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y cyllid a oedd ar gael iddi mewn da bryd cyn gosod y Gyllideb Atodol. At hynny, cafodd y Pwyllgor ei galonogi gan y cyfarfod cychwynnol cadarnhaol a gynhaliwyd rhwng y Gweinidog a Phrif Ysgrifennydd diweddaraf y DU i'r Trysorlys ac mae'n annog y Gweinidog i barhau yn ei hymdrechion i wella gallu Llywodraeth Cymru i reoli cyllid o un flwyddyn i'r llall. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd camau bach o'r fath yn arwain at berthynas esmwythach a mwy adeiladol rhwng y ddwy lywodraeth.

30. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion o'r blaen sy'n cefnogi ymdrechion y Gweinidog i bwyso ar Lywodraeth y DU i gynyddu maint Cronfa Wrth Gefn Cymru a therfynau benthyca fel eu bod yn unol â chwyddiant.³¹ Rydym yn cytuno'n gryf â'r Gweinidog fod y rheolau presennol, yn eu hanfod, yn annheg ac yn gosod cyfyngiadau diangen ar y disgresiwn a roddir i Weinidogion Cymru wrth reoli eu cyllidebau. Safbwynt cadarn y Pwyllgor – a adlewyrchir yn ein hadroddiad ar Adroddiad Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24 – yw y dylai Llywodraeth y DU gynyddu terfynau cyffredinol, a therfynau blynyddol ar gyfer benthyca a chronfeydd wrth gefn yn unol â chwyddiant, o leiaf, ac y dylai'r terfynau hyn gael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn peidio â lleihau'r gwerth mewn termau real dros amser.³² Dyma ailadrodd y safbwyntiau hynny yma, a chefnogi'r Gweinidog yn ei hymdrechion.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog drwy'r Gyllideb Atodol i sicrhau bod digon o le yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i osgoi mynd y tu hwnt i derfynau cario ymlaen, a fyddai'n arwain at orfod dychwelyd cyllid i Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am y balans yn ystod y flwyddyn yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru fel rhan o'r ddogfennaeth sy'n cydfynd â'r holl gynigion cyllidebol a gyflwynir gerbron y Senedd yn y dyfodol.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu manylion unrhyw ddyraniadau munud olaf sylweddol a wnaed rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol o ganlyniad i gytundeb ar ddyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus – neu am unrhyw reswm arall – ac i wybodaeth o'r fath gael ei darparu cyn i Gyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 gael ei gosod.

³¹ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2021-22 2022, Argymhelliad 24

³² Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023, Argymhelliad 11

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn parhau yn ei hymdrechion i berswadio Llywodraeth y DU i gynyddu maint Cronfa Wrth Gefn Cymru a'r terfynau benthyca – fel eu bod yn unol â chwyddiant, o leiaf – gyda'r nod o ddarparu digon o hyblygrwydd, yn debyg i'r hyn a ganiatawyd ar gyfer awdurdodau lleol, i ganiatáu rheolaeth ddarbodus o'r gyllideb o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

3. Dyranïadau eraill

Mynd i'r afael â phwysau chwyddiant, costau a chyflog

31. Cyhoeddwyd ffigurau chwyddiant diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 15 Chwefror a nodwyd bod chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 10.1 y cant.³³ Chwyddiant a ysgogwyd i ddechrau gan bwysau prisiau a fewnforiwyd – drwy gynnydd mewn prisiau tanwydd ac ynni – sydd hefyd wedi cael effaith benodol ar brisiau bwyd ac adeiladu.

32. At hynny, mae pwysau chwyddiant wedi cael effaith sylweddol ar gyflogau, sydd wedi bod yn cynyddu'n gyffredinol, ond nid i'r un graddau â phrisiau. Ffigurau diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer twf cyflog rheolaidd cyfartalog ar gyfer y sector preifat oedd 7.3 y cant, o fis Hydref i fis Rhagfyr 2022, a 4.2 y cant ar gyfer y sector cyhoeddus.³⁴

33. Ar 8 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnig cyflog gwell i'r GIG, sef 3 y cant ychwanegol – y mae 1.5 y cant ohono wedi'i gydgrynhoi – wedi'i ôl-ddyddio i fis Ebrill 2022.³⁵ Er bod Fforwm Partneriaeth Cymru ar y cyd wedi derbyn y cynnig cyflog o drwch blewyn,³⁶ nid yw pob undeb wedi derbyn y cytundeb, mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn gofyn am drafodaethau uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru³⁷ ac mae streiciau Ambiwlans hefyd yn parhau.³⁸

34. Mae'r Datganiad yn nodi mai “dim ond tan ddiwedd mis Mawrth” y mae'r elfen 2022-23 y cynnig ar gael.³⁹ At hynny, bydd cynnig cyflog pellach yn cael ei wneud i staff yng Nghymru os bydd cynnig uwch i staff y GIG yn Lloegr yn arwain at swm canlyniadol Barnett cadarnhaol.⁴⁰

35. Ar 9 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Gymraeg gynnig cyflog gwell i athrawon a phenaethiaid.⁴¹ Gwrthododd undebau athrawon, yr NEU a Phenaethiaid Cenedlaethol y cynnig cyflog.⁴²

³³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Chwyddiant prisiau defnyddwyr, y DU, Ionawr 2023

³⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Enillion wythnosol cyfartalog ym Mhrydain Fawr, Chwefror 2023

³⁵ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Codiad dyfarniad cyflog y GIG ar gyfer 2022/2023, 8 Chwefror 2023

³⁶ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Codiad dyfarniad cyflog y GIG ar gyfer 2022/2023, 28 Chwefror 2023

³⁷ Nursing Times, Nyrsys yn gwrthod cynnig cyflog newydd Llywodraeth Cymru, 'â mwyafrif llethol', 28 Chwefror 2023

³⁸ GMB, gweithwyr ambiwlans Cymru yn gwrthod cynnig cyflog, 17 Chwefror 2023

³⁹ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Codiad dyfarniad cyflog y GIG ar gyfer 2022/2023, 8 Chwefror 2023

⁴⁰ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Codiad dyfarniad cyflog y GIG ar gyfer 2022/2023, 8 Chwefror 2023

⁴¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar drafodaethau gydag undebau athrawon a prifathrawon, 9 Chwefror 2023

⁴² BBC, Streiciau Cymru: Athrawon yn gwrthod cynnig cyflog a'n bwriadu cymryd camau gweithredu, 15 Chwefror 2023

36. Mae'r Nodyn Esboniadol yn dangos bod dyraniadau wedi'u cynnwys i gefnogi setliadau posibl ar gyfer staff ac athrawon GIG Cymru, sef £120 miliwn ym maes lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a £32 miliwn ar gyfer Addysg a'r Gymraeg.⁴³

37. Pan ofynnwyd iddi am effaith chwyddiant ar gynlluniau cyllidebol Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau:

*"I think the real big challenges are related to inflation. Mae'n debyg mai'r mwyaf, rwy'n meddwl, fyddai tâl y sector cyhoeddus, ac mae hynny, yn amlwg, yn uniongyrchol gysylltiedig â chwyddiant. Ac yna costau ynni."*⁴⁴

38. Pan ofynnwyd iddi am y paratodau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i gefnogi bargeinion cyflog newydd rhwng nawr a diwedd blwyddyn ariannol 2022-23, rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor ei bod yn barod ar gyfer y naill senario neu'r llall, gan nodi fel a ganlyn:

*"We knew that we had to make an allocation within the supplementary budget for those awards in this financial year, both in terms of education and health, because, if the Senedd didn't approve the funding to be there, then, obviously, we wouldn't be able to make those payments ... We are able to accommodate either situation."*⁴⁵

Cefnogi'r GIG

39. Yn ei Hail Gyllideb Atodol, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cynnydd net o £325.1 miliwn yng nghyllid y Terfyn Gwariant Adrannol i Brif Grŵp Gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ei Nodyn Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r cymorth i'r GIG fel un o'i ddyraniadau allweddol yn y Gyllideb Atodol.⁴⁶ Yn ogystal â'r cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog 2022-23 y mae wedi dyrannu £120 miliwn ar eu cyfer ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n dweud:

*"Gan adeiladu ar ein Cyllideb Derfynol, mae'r gyllideb atodol hon yn darparu pecyn gwerth cyfanswm o £170m i gefnogi'r GIG; ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus fel Llywodraeth i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae £21.1m wedi'i aildrefnu o bortffolios eraill i ariannu'r cymorth hwn."*⁴⁷

40. Mae'n ychwanegu y "bydd y dyraniad hwn yn ariannu'r costau ynni ychwanegol eithriadol o £81m a wynebwyd gan y GIG y gaeaf hwn, o ganlyniad i anwadalrwydd yn y farchnad a achoswyd

⁴³ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 5](#)

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 18

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 54

⁴⁶ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 4](#)

⁴⁷ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 4](#)

gan y rhyfel yn Wcráin".⁴⁸ Bydd £89 miliwn arall "yn cefnogi'r costau parhaus ychwanegol sy'n gysylltiedig â'n hymateb i Covid-19 sy'n dal i gael eu hwynebu gan sefydliadau'r GIG".⁴⁹

41. Mae pob bwrdd iechyd lleol ac eithrio un (Bae Abertawe) yn rhagweld diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2022-23.⁵⁰ Mae hyn yn cyferbynnu â 2021-22 pan mai dim ond dau fwrdd iechyd lleol a fethodd ag adennill costau (Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bae Abertawe).⁵¹

42. Pan ofynnwyd a oedd y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddigonol i ymdrin â'r gorwariant a wneir gan fyrdau iechyd lleol, dywedodd y Gweinidog:

"The health Minister will hold funding within her MEG to offset deficits within the NHS organisations. There are no specific allocations to the health and social services MEG to support deficits."

43. Rhoddodd y swyddog a oedd gyda'r Gweinidog sicrwydd ychwanegol i'r Pwyllgor, gan nodi bod yn rhaid i'r Prif Grŵp Gwariant (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) gael digon o arian neu gyllideb ddigonol i dalu am y gorwariant hynny.⁵²

Ymateb i'r rhyfel yn Wcráin

44. Ar 13 Mawrth 2022 ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AS, a Phrif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon ASA, at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn cynnig bod y ddwy lywodraeth yn dod yn uwch-noddwyr.⁵³

45. Dyrannodd Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 £20 miliwn ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn fel cymorth ariannol brys i lywodraeth leol i gefnogi'r ymateb i'r argyfwng yn Wcráin.⁵⁴ Mae'r Ail Gyllideb Atodol yn amlinellu £91.7 miliwn pellach i gefnogi "ein hymateb dyngarol i'r rhyfel yn Wcráin", a ddarperir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb, Cymorth Ariannol Brys yn Mhrif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol.⁵⁵ Mae'n dweud ei fod yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn y maes hwn.⁵⁶

⁴⁸ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 4](#)

⁴⁹ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 4](#)
[Llythyr oddi wrth y Gweinidogion sy'n gyfrifol am iechyd a gofal cymdeithasol, 21 Rhagfyr 2022, tudalen 49](#)

⁵¹ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Cyfrifon GIG Cymru 2021-22, 17 Mehefin 2022](#)

⁵² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 145

⁵³ [Llywodraeth yr Alban, newyddion: Nawdd i ffoaduriaid Wcráin, 13 Mawrth 2022](#)

⁵⁴ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023, 21 Mehefin 2022, tudalen 4](#)

⁵⁵ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 3](#)

⁵⁶ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 3](#)

46. Ym mis Mehefin 2022, gwnaeth Llywodraeth Cymru atal dros dro ei llwybr at fod yn uwch-noddwr⁵⁷. Mae'r Nodyn Esboniadol yn sôn am gynyddu nifer y canolfannau croeso,⁵⁸ fodd bynnag, dywedwyd yn ddiweddar bod y canolfannau croeso hynny ar fin cau.⁵⁹

47. Pan ofynnwyd iddi am y cyllid a ddarperir yn y Gyllideb Atodol i helpu awdurdodau lleol gyda chostau lletya'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel yn Wcráin, dywedodd y Gweinidog:

*"So, overall in this financial year, we've made £112 million available to support people arriving from Ukraine ... around £74 million of that was provided by the UK Government through its support for people arriving from Ukraine. The balance was met from our Welsh Government reserves, so that's £20 million that was allocated ... in the first supplementary budget, and then the remainder as part of this supplementary budget."*⁶⁰

48. At hynny, cafwyd eglurhad gan y Gweinidog ynghylch y gweithgareddau penodol y mae'r Gyllideb Atodol yn eu cefnogi yn y maes hwn:

*"So, the funding that you see in the supplementary budget and that has been provided all through this year, in fact, supports the welcome centres and the other initial accommodation as well as the wraparound services for people to make sure that they're supported in the first instance to register with the doctors, to make sure that they're accessing all the support that's available to them. We're also funding, in this financial year, the contact centre, data platform and the arrival hubs, as well as transport costs and translation costs."*⁶¹

49. Pan ofynnwyd iddi a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol o fewn y Gyllideb Atodol i liniaru pwysau yn gyffredinol, dywedodd y Gweinidog:

*"I'd just recognise that local authorities had a very good settlement—exceptionally good—of 9.4 per cent in this financial year. So, I think that they were, at least initially, well placed to meet the challenges."*⁶²

⁵⁷ [Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar y cynllun Cartrefi i Wcráin, 8 Mehefin 2022](#)

⁵⁸ [Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol 2022-23: Nodyn Esboniadol, 14 Chwefror 2023, tudalen 4](#)

⁵⁹ [BBC, Ffoaduriaid Wcráin: Canolfannau croeso Cymru i gau, 21 Chwefror 2023](#)

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraffau 105 a 106

⁶¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 127

⁶² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 129

50. Er gwaethaf hyn, cydnabu'r Gweinidog hefyd fod rhai awdurdodau lleol wedi canfod ei fod yn anodd⁶³ cefnogi nifer y ffoaduriaid o Wcráin sydd wedi bod eisiau setlo, y tu hwnt i'r pwysau presennol.

Barn y Pwyllgor

51. Fel y soniwyd yn y Bennod flaenorol, mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cyllid ar gael o'r cronfeydd wrth gefn presennol i gwmpasu amrywiaeth o senarios yn ymwneud â chyflogau'r sector cyhoeddus rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol.

52. Er ein bod yn croesawu'r dull darbodus hwn ac yn cydnabod bod yr amgylchiadau eleni yn eithriadol mae'r Pwyllgor yn pryderu – ar adeg y Gyllideb Atodol hon – nad yw'r dyfarniadau cyflog allweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol wedi'u cytuno eto. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus, er gwaethaf yr effaith bersonol ar weithwyr y sector cyhoeddus eu hunain, bod lefelau ansicrwydd o'r fath yn rhoi pwysau pellach ar bartneriaid cyflawni wrth iddynt geisio deall eu sefyllfa ariannol o un flwyddyn ariannol i'r llall. Mae gan hyn y potensial i roi beichiau diangen ar gyllid y sector cyhoeddus ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi rheolaethau ar waith mewn modd rhagweithiol, er mwyn lliniaru'r digwyddiadau posibl hyn.

53. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y pwysau parhaus a achosir gan chwyddiant a'r camau penodol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru o fewn y Gyllideb Atodol hon i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chostau ynni cynyddol yn y GIG. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder y gorwariant a ragwelir gan fyrddau iechyd lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 a'r anawsterau y maent yn eu cael wrth gyrraedd targedau ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Er bod y Pwyllgor wedi'i sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi hwb i fyrddau iechyd lleol eleni, gydag unrhyw orwariant yn cael ei ariannu o gyllideb yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym o'r farn y gall y Gweinidog gymryd camau pellach fel na fydd sefyllfaoedd o'r fath yn codi. Galwn, felly, ar y Gweinidog i gymryd camau i sicrhau nad yw pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'w gyllid dros y cyfnod treigl o dair blynedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014.⁶⁴ At hynny, rydym yn croesawu sylwadau gan Lywodraeth Cymru na fernir bod angen dyraniadau pellach i fynd i'r afael â'r materion hyn rhwng nawr a diwedd y flwyddyn.

54. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cymorth dyngarol ychwanegol a ddarparwyd i ffoaduriaid Wcráin yn y ddwy Gyllideb Atodol yn 2022-23 ac yn cydnabod yr ymdrechion amhrisiadwy a wneir gan awdurdodau lleol i roi cymorth hanfodol i'r rheini sy'n ffoi o'r rhyfel. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i wella'r cymorth ariannol sydd ar gael i gefnogi cynlluniau cysylltiedig, yn ogystal â chyllid a ddarparwyd eisoes gan

⁶³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 1 Mawrth 2023, paragraff 114

⁶⁴ Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 (dccc 2)

Lywodraeth y DU. At hynny, mae'n nodi bod y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol drwy'r setliad ar gyfer 2022-23 yn eu gosod mewn sefyllfa dda i ddiwallu'r heriau hyn.

55. Fodd bynnag, ar ddechrau ail flwyddyn o ryfel yn Wcráin ac wrth i natur y gwasanaethau ddarparu symudiadau o'r lefelau cymorth cychwynnol i'r rheini sy'n dymuno ymgartrefu yng Nghymru i wasanaethau eraill, nid yw'n glir a yw awdurdodau lleol yn ddigon gwydn i ymdrin â phwysau o'r fath. At hynny, nodwn sylwadau'r Gweinidog fod rhai awdurdodau lleol wedi'i chael yn anodd cynnal gwasanaethau o'r fath ac mae'r Pwyllgor yn pryderu am y modd anghyson y caiff y cyfryw adnoddau eu darparu ar draws meysydd llywodraeth leol. Galwn, felly ar Lywodraeth Cymru i fonitro'r cyllid y mae'n ei ddarparu at y diben hwn er mwyn sicrhau bod gan lywodraeth leol lefelau priodol o adnoddau i fynd i'r afael â'r sefyllfa esblygol hon.

56. Mae'r Pwyllgor wedi galw o'r blaen ar y Gweinidog i geisio ymrwymadau gan Lywodraeth y DU ar gyllid parhaus i gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i roi llety i ffoaduriaid o Wcráin.⁶⁵ O ystyried pwysigrwydd cyllid Llywodraeth y DU i gynnal y gwasanaethau sydd eu hangen, rydym yn annog y Gweinidog i barhau i bwyso am i gronfeydd o'r fath gael eu cefnogi gan adnoddau canolog.

Casgliad 2. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw orwariant a wneir gan fyrddau iechyd lleol o fewn 2022-23 yn cael ei gynnwys yng nghyllideb yr adran iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac na fydd angen dyraniadau ychwanegol at y diben hwn.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rheolaethau ar waith i sicrhau bod ei phartneriaid cyflawni yn cael cymaint o eglurder â phosibl ynghylch eu sefyllfa ariannol o'r naill flwyddyn i'r llall, o ystyried bod effaith unrhyw oblygiadau ariannol sy'n deillio o ddyfarniadau cyflog allweddol dal i fod yn anhysbys.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell fel a ganlyn:

- Bod mesurau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'w gyllid dros y cyfnodau treigl o dair blynedd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014; a
- lle mae Byrddau Iechyd Lleol yn gorwario mewn un flwyddyn, dylai'r rhain gael eu hariannu o gyllideb bresennol yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

⁶⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23, Gorffennaf 2022, Argymhelliad 4

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i'w galluogi i ddarparu cymorth i'r rheini sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin, waeth beth fo'r newidiadau i gyllid gan Lywodraeth y DU, a hefyd bod cymorth cyson yn cael ei ddarparu ar draws awdurdodau lleol Cymru.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn parhau yn ei hymdrechion i sicrhau bod lefelau digonol o gyllid yn cael eu darparu gan Lywodraeth y DU i gefnogi'r ymateb dyngarol o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin.

4. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

57. Mae cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru⁶⁶. Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau hyn yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2023.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

58. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd 1.25 y cant yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer 2022-23. O ganlyniad, ychwanegwyd £38,000 at gost flynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac, ym mis Ebrill 2022, gofynnodd am adnoddau ychwanegol, drwy Gyllideb Atodol.⁶⁷ Cymeradwyodd y Senedd y cais ar 12 Gorffennaf 2022.⁶⁸ Fodd bynnag, cafodd penderfyniad Llywodraeth y DU ei wrth-droi yn ystod y flwyddyn ac, o 6 Tachwedd 2022 ymlaen, nid oedd y cynnydd yn berthnasol mwyach.⁶⁹

59. Cyflwynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyllideb Atodol (ynghlwm yn Atodiad A) i ddychwelyd £16,000 i adlewyrchu'r cyllid na wariwyd oherwydd y penderfyniad i wrth-droi'r penderfyniad i gynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol o 6 Tachwedd 2022 ymlaen. Roedd hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad 8 yn adroddiad y Pwyllgor, sef 'Gwaith Craffu Blynnyddol ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24'.⁷⁰

Archwilio Cymru

60. Mae gan Archwilio Cymru dri eiddo ar brydles, a hynny yng Nghaerdydd, Penllergaer ac Abergele. Mae'r brydles 15 mlynedd ar ei swyddfa yng Nghaerdydd yn dod i ben fis Mawrth 2023. Bydd y brydles ar y ddwy swyddfa arall yn dod i ben yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2021-22, nododd Archwilio Cymru gynnydd mewn buddsoddiad cyfalaf yn 2022-23 ar gyfer y gost arfaethedig o symud i swyddfa newydd.⁷¹

61. Yna, yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2022-23, dywedodd Archwilio Cymru ei fod wedi ymestyn y brydles ar y swyddfa yng Nghaerdydd am flwyddyn arall "i ganiatáu gwell dealltwriaeth o'n hanghenion llety mewn byd ar ôl COVID". Yn ei Amcangyfrif ar gyfer 2022-23, nododd fod angen £650,000 o arian cyfalaf ar gyfer 2023-24, o'i gymharu â £200,000 ar gyfer 2022-23.⁷²

⁶⁶ Comisiwn y Senedd, Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

⁶⁷ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23

⁶⁸ Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion 12 Gorffennaf 2022

⁶⁹ Llywodraeth y DU, y penderfyniad i gynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol wedi'i wrth-droi, 22 Medi 2022

⁷⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu Blynnyddol ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24

⁷¹ Archwilio Cymru, Amcangyfrifon 2021-22, tudalen 12

⁷² Archwilio Cymru, Amcangyfrif ar gyfer 2022-23, tudalennau 7 a 15

Symud swyddfa

62. Ym mis Medi 2022, cyflwynodd Archwilio Cymru Ail Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 (ynghlwm yn Atodiad B) yn gysylltiedig â'i adleoliad swyddfa yng Nghaerdydd. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Archwilio Cymru ar 22 Medi 2022.⁷³

63. Yn y llythyr⁷⁴ a oedd yn cyd-fynd ag Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23, mae Archwilio Cymru yn nodi bod Bwrdd SAC wedi cymeradwyo argymhelliad, ym mis Gorffennaf 2022, i symud i swyddfa yng Nghwr y Ddinas, Caerdydd. Esboniodd Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol)) y rheswm dros symud i swyddfa newydd yn gynt:

*"Our lease on Cathedral Road ends next March. We had previously contemplated seeking a one-year extension of that lease to give us a bit more time to prepare. In dialogue with the landlord, however, it became clear that that was not going to be something that was straightforward to do and would be quite expensive for us to do. And so instead we decided it was better to move at the end point of the lease, hence the request for a supplementary budget to help fund the move, rather than seeing it in the estimate that you would have for next year."*⁷⁵

64. Yn dilyn cynlluniau peilot ar weithio hybrid, a thrwy gynnal adolygiad arall o nifer y staff ar y safle, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod angen eiddo nad yw ond hanner maint y swyddfa yn Heol y Gadeirlan ar gyfer y dyfodol.⁷⁶ Pan ofynnwyd pa mor hyderus yw Archwilio Cymru ynghylch y math o swyddfa y bydd ei hangen arnynt yn y dyfodol, o gofio y byddai angen ymrwymo i brydles 10 mlynedd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol:

*"...Cathedral Road is way too large. It was too large pre pandemic; it's way too big for us now. Capital Quarter is about 40 per cent less than that. So, it's a significant reduction. It's on two floors and we're looking to negotiate break clauses on both floors so that if we find that, in a few years' time, it's still too much, we have a way to reduce our footprint still further."*⁷⁷

Yr opsiynau a ystyriwyd

65. Roedd y llythyr yn dweud bod prosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol wedi bod yn destun "llywodraethu trwyadl" a bod tri arfarniad iteraidd gwahanol o'r opsiynau wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cynnig terfynol yn bodloni targed arbedion ariannol Archwilio Cymru a'r uchelgais i

⁷³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022

⁷⁴ Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

⁷⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 191

⁷⁶ Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

⁷⁷ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 193

gael gweithle mwy cynaliadwy. Yn ogystal ag ystyried a oedd angen swyddfa, ystyriodd Archwilio Cymru dri opsiwn cyffredinol:

- Aros yn Heol y Gadeirlan – cafodd yr opsiwn hwn ei ddiystyru oherwydd maint yr adeilad yn ogystal â'i berfformiad amgylcheddol a'r costau ynni cysylltiedig. Roedd hefyd yn opsiwn drud iawn gan fod disgwyl i gostau'r brydles godi 12 y cant ac roedd angen buddsoddiad cyfalaf o £360,000 i sicrhau diogelwch ac i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Roedd yr opsiwn o ddefnyddio llai o le yn yr adeilad yn Heol y Gadeirlan yn dal yn ddrutach na symud i unrhyw un o'r swyddfeydd eraill ar y rhestr fer.
- Symud i swyddfa y tu allan i Gaerdydd – Ystyriwyd opsiynau ledled De Cymru ond fe'u diystyrwyd "yn bennaf oherwydd diffyg adeiladau addas o'r maint cywir gyda pherfformiad amgylcheddol da a'r effaith sylweddol ar deithio staff". Dim ond eiddo yng Nghaerdydd oedd ar y rhestr fer.
- Rhannu swyddfa gyda chorff cyhoeddus arall - aeth Archwilio Cymru ati i adolygu'r lleoedd gwag ar oedd ar gael gan edrych ar yr ystâd gyhoeddus a chysylltu'n uniongyrchol â nifer o gyrff cyhoeddus. Nid oedd unrhyw opsiynau addas i'w cael, ond nid yw Archwilio Cymru yn diystyru'r opsiwn hwn yn y tymor hwy. Byddai angen i unrhyw drefniant o'r fath ystyried annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol.⁷⁸

66. Ystyriodd Archwilio Cymru dros 30 o swyddfeydd posibl a rhoi sgôr i bob un ar sail y canlynol:

- Diwallu anghenion busnes;
- cost;
- perfformiad amgylcheddol; a
- mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus a pharcio⁷⁹

67. Yn ôl y llythyr, y swyddfa yng Nghwr y Ddinas enillodd "y sgôr ansawdd cyffredinol uchaf".⁸⁰ Aeth Pennaeth y Gwasanaethau Busnes rhagddo i ymhelaethu ar y broses arfarnu:

"There were a couple of premises that had scored higher, but it actually represented increased cost. And there were a couple of premises that initially scored higher, but then we revisited them and they ended up scoring less after we delved a bit deeper. Ultimately, we longlisted nine premises that we then got down to a shortlist of three, and Capital Quarter scored highest of those three across all of the quality areas that we had reviewed. It scored slightly

⁷⁸ Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

⁷⁹ Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

⁸⁰ Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

higher in terms of cost, but it was only marginal over the life of the lease, but there were other reasons for discounting the other two remaining and those related to impact and environment.”⁸¹

Costau, arbedion a manteision

68. Mae'r Ail Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 yn gofyn am y canlynol:

- **Cynnydd o £575,000 mewn adnoddau cyfalaf ac arian parod cysylltiedig** – yn cynnwys £405,000 ar gyfer cyfarpar a gwaith uwchraddio amgylcheddol, £60,000 ar gyfer costau symud a sefydlu, £40,000 ar gyfer Treth Trafodiadau Tir, £40,000 ar gyfer ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol a £30,000 ar gyfer costau staff ychwanegol.
- **Cynnydd o £100,000 mewn adnoddau refeniw ac arian parod cysylltiedig**, gan gynnwys £60,000 ar gyfer costau rhentu'r swyddfa newydd o fis Rhagfyr 2022 ymlaen.
- **Cynnydd o £2,850,000, yn ôl yr amcangyfrif, mewn adnoddau (nad ydynt yn arian parod)** i adlewyrchu effaith y safon cyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi, Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS 16).⁸²

69. Byddai hyn yn golygu cynnydd yn y gofyniad arian parod net, o £8.7 miliwn i £9.4 miliwn, a chynnydd yn y gofyniad adnoddau, o £8.3 miliwn i £11.8 miliwn, yn 2022-23.

70. O'r cynnydd o £100,000 mewn adnoddau refeniw, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Busnes fod y £40,000 sy'n weddill yn ymwneud â ffioedd gwerthwyr tai, cymorth ymgynghori ychwanegol a gwasanaethau cyfreithiol ar gyfer pob eiddo, gan gynnwys y broses o adnewyddu prydles swyddfa Penllergaer o bosibl am gyfnod ychwanegol o ddwy flynedd.⁸³

71. Mae'r Ail Amcangyfrif Atodol yn cynnwys addasiadau ar gyfer adnoddau (nad ydynt yn arian parod) cysylltiedig ag IFRS 16. Amcangyfrifir mai'r effaith fydd £2,850,000 yn 2022-23, sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer dadfeilio strwythurol yn y dyfodol. Disgrifiodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol sut y bydd addasiad IFS 16 cysylltiedig â'r brydles newydd yn effeithio ar gyfrifon Archwilio Cymru ac Amcangyfrifon y dyfodol:

“...IFRS 16 requires us to record what are called right-of-use assets on our balance sheet. So, to all intents and purposes, that means our leases. So, we now have to capitalise the value of the lease and then depreciate that over the life of the lease... The new cost of capitalising the lease in Capital Quarter is set out in that second supplementary estimate. It's worth saying then, going

⁸¹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 210

⁸² Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

⁸³ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 243, 245 a 248

forward, the impact is pretty minimal, as the depreciation and interest costs are pretty much offset by the actual lease costs for Capital Quarter. So, if we look in terms of our accounts for future years, the impact is probably around £30,000 non-cash per annum, and that relates to us establishing a new dilapidations provision for that building, and then writing that off over the period of the lease...”⁸⁴

72. Bydd costau symud swyddfa hefyd yn golygu cynnydd o hyd at £650,000 mewn arian parod i dalu costau dadfeilio yn swyddfa Heol y Gadeirlan yn 2023-24. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Corfforaethol fod y ffigwr ar gyfer costau dadfeilio’n cynnwys yr ystâd gyfan, nid dim ond Heol y Gadeirlan, a bod materion dadfeilio’n un o’r gofynion cytundebol o dan y brydles. Dywedodd ei bod yn anodd pennu costau dadfeilio ar gyfer swyddfa Heol y Gadeirlan oherwydd y trafodaethau sy’n parhau i fynd rhagddynt gyda’r landlord, gan ychwanegu:

“Of course, we’ll look to reduce the dilapidations to the lowest possible level. We’ll be carrying out a very thorough review of the dilapidations provision, and the dilapidations schedule, I should say, and also looking to see what work we’ve already carried out at Cathedral Road that, again, could offset any of that.”⁸⁵

73. Cytunodd yr Archwilydd Cyffredinol i ddarparu rhagor o fanylion am y costau dadfeilio gwirioneddol ar gyfer Heol y Gadeirlan pan fyddant yn hysbys.⁸⁶

74. Ym mis Hydref 2022, dywedodd Bwrdd SAC ei fod wedi pennu targed i arbed o leiaf £1,000,000 dros bum mlynedd ar gyfer prosiect Ein Gweithleoedd yn y Dyfodol.⁸⁷ Mae’r llythyr yn cyfeirio at darged i arbed 20 y cant, neu ryw £180,000, bob blwyddyn ac yn nodi y bydd y cynllun arfaethedig i symud swyddfa yn rhagori ar y targed hwnnw, a’r amcangyfrif yw y bydd yn sicrhau arbedion blyneddol o £220,000 ar gostau swyddfa yn y dyfodol.⁸⁸

75. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Busnes nad yw'n bosibl dweud eto lle bydd yr arbedion, a hynny oherwydd y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt. Fodd bynnag, awgrymodd y byddai’r costau’n cael eu hadennill ymhen tair blynedd, gan ychwanegu:

“...the one thing that may impact upon that would be the increasing electricity costs currently that we’re aware of, and we may also consider rentalising a

⁸⁴ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 256

⁸⁵ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 252-253 a 261

⁸⁶ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 267

⁸⁷ Archwilio Cymru, Amcangyfrifon 2021-22, tudalen 5

⁸⁸ Llythyr gan Archwilio Cymru, 7 Medi 2022

small proportion as well, but we expect that it would still be within a three-year period with that.”⁸⁹

76. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol fraslun o’r goblygiadau i Archwilio Cymru pe na bai’r cais am arian a nodir yn yr Ail Amcangyfrif Atodol yn cael ei gymeradwyo:

“We have to have an office. We would be able to do so. What would it mean in the short term? It would mean that we would look to utilise, essentially, all of our existing capital budget. So, everything else that we are looking to spend capital funds on, I don't think that we would be able to this year. We, I suspect, would not be able to move into a fully operational building on day one. So, that would obviously have consequences for our utilisation of that space. I suspect that we therefore would also incur some costs hiring other facilities in the short term for staff to come together. Inevitably, it would then be reflected in our future estimates, because we would want to do those capital works in the new premises as soon as possible.”⁹⁰

Yswiriant Gwladol

77. Mewn perthynas â’r penderfyniad i wrth-droi’r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflgowyr o 6 Tachwedd 2022 ymlaen, dywedodd Archwilio Cymru wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu dychwelyd cyllid heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

“Rydym wedi amcangyfrif y bydd yr arbedion sy'n ymwneud â newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dod i £51,000 yn 2022-23. Rydym yn gweithio'n galed i wireddu ein rhagamcanion incwm ar gyfer y flwyddyn er bod lefelau salwch uwch na’r disgwyl yn gysylltiedig â Covid wedi cael effaith arnynt. Effeithid arno ymhellach pe byddai gweithredu diwydiannol yn digwydd cyn diwedd y flwyddyn. Gan gofio’r cafeatau hyn, ein bwriad yw dychwelyd hyn, ynghyd ag unrhyw arian arall sydd heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.”⁹¹

Comisiwn y Senedd

78. Cyflwynodd Comisiwn y Senedd ei Ail Gyllideb Atodol ddrafft ar gyfer 2022-23 i’r Pwyllgor ar 24 Ionawr 2023.⁹² Cadarnhaodd fod y Comisiwn yn cynnig sicrhau gostyngiad o £1.1 miliwn at ei gilydd yn ei gyllideb ar gyfer 2022-23, gan gynnwys y canlynol:

⁸⁹ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraffau 243, 245 a 248.

⁹⁰ Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 22 Medi 2022, paragraff 272.

⁹¹ Archwilio Cymru, Ymateb i Waith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru, Argymhellid 15.

⁹² Llythyr gan Gomisiwn y Senedd, 24 Ionawr 2023.

- Gostyngiad o £130,000 yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net, i adlewyrchu'r penderfyniad i wrth-droi'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 6 Tachwedd 2022 ymlaen a gostyngiad o £100,000 yn y gyllideb gyffredinol i adlewyrchu gostyngiad disgwylidig yn y ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blyneddol a gronnwyd.
- Gostyngiad yn y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau – gostyngiad o £695,000 (£750,000 gan gynnwys £55,000 o gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr) yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net i adlewyrchu'r ffaith na ddisgwylir i gyllideb 2022-23 gael ei defnyddio'n llawn.
- Gostyngiad yn y gyllideb i gynorthwyo â'r gwaith o weinyddu'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Safonau - gostyngiad o £150,000 yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net i adlewyrchu'r ffaith na ddisgwylir i gyllideb 2022-23 gael ei defnyddio'n llawn.
- Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 – Prydlesi – addasiad ychwanegol i adlewyrchu gofynion cyfrifyddu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16. Nid oes dim newid yn y gyllideb gyffredinol na'r gofyniad arian parod net.

79. Mae penderfyniad y Comisiwn i ddychwelyd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cyd-fynd â'r ymrwymadau a wnaeth y Comisiwn yn ystod y gwaith o graffu ar ei Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 ym mis Hydref 2022.⁹³

80. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried cynigion y Comisiwn, gosododd y Comisiwn femorandwm esboniadol yn nodi'r gyllideb atodol ac yn rhoi'r rhesymau drosti.⁹⁴

Barn y Pwyllgor

81. Mae'r Pwyllgor yn croesawu Cyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n dychwelyd £16,000 i Gronfa Gyfunol Cymru i adlewyrchu'r arian na wariwyd yn dilyn y penderfyniad i wrth-droi'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 6 Tachwedd 2022 ymlaen. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad 8 yn adroddiad y Pwyllgor ar Waith Craffu Blyneddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2023-24.

82. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r arian y gofynnwyd amdano i ganiatáu i Archwilio Cymru symud ei swyddfa yng Nghaerdydd ac mae'n ddiolchgar am y manylion a amlinellwyd yn y Memorandwm Esboniadol, y llythyr atodol a'r dystiolaeth ddilynol a ddarparwyd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd y cynllun arfaethedig i symud swyddfa yn arwain at arbedion sylweddol o ran y gost o'i

⁹³ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-24, Hydref 2022, paragraff 68

⁹⁴ Comisiwn y Senedd, Ail Gyllideb Atodol Senedd Cymru 2022-23 - Memorandwm Esboniadol, 2 Chwefror 2023

rhedeg ac yn gwella perfformiad amgylcheddol. Mae hefyd yn croesawu'r ffaith bod cymal i derfynu'r brydles wedi'i gynnwys i sicrhau y bydd y swyddfa'n parhau i ddiwallu anghenion busnes wrth i'r rheini newid. O ystyried yr amserlenni ar gyfer symud i swyddfa newydd yng Nghaerdydd, cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i'r cais am gyllid ym mis Medi 2022. Mae'r symud swyddfa'n golygu swm mawr o arian ychwanegol ac mae'r Pwyllgor yn disgwyl gweld arbedion effeithlonrwydd mewn amcangyfrifon yn y dyfodol.⁹⁵

83. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gostyngiadau arfaethedig yng nghyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-23, ac yn croesawu'r ffaith bod y cyllid a glustnodwyd ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cyd-fynd ag ymrwymadau a wnaed gan y Comisiwn ym mis Hydref 2022 pan oedd y Pwyllgor yn craffu ar ei gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24.

Casgliad 3. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad yn y cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

⁹⁵ Llythyr at Archwilio Cymru, 26 Medi 2022

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Ail Gynnig y Gyllideb Atodol 2022-23

Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cwblhawyd y Cynnig Cyllideb Atodol hwn yn unol â Rheolau Sefydlog 18A.2 a 20.36 Senedd Cymru dyddiedig Medi 2022.

Cefndir

Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno cynnydd o 1.25% yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer 2022/23. Arweiniodd hyn at gost flynyddol ychwanegol o £38k i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gwnaethon ni gais am hynny drwy Gyllideb Atodol ym mis Ebrill 2022. Cymeradwywyd hyn.

Fodd bynnag, cafodd penderfyniad Llywodraeth y DU ei wrthdroi yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu na fyddai'r cynnydd yn berthnasol o 6 Tachwedd 2022 ymlaen. Mae'r Gyllideb Atodol hon yn dychwelyd y cyllid sydd heb ei wario, ac sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023. Mae'n cyd-fynd ag argymhelliad 8 yn Adroddiad Craffu Blynyddol y Pwyllgor ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Tachwedd 2022.

Amrywio Adnoddau a Geisir

Rydyn ni'n cynnig amrywio'r cynnig cyllideb blynyddol yn unol â Rheol Sefydlog 20.36 yng nghyswllt:

- Gostyngiad o £16k i adlewyrchu'r cyllid sydd heb ei wario, ac sy'n deillio o wrthdroi'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 6 Tachwedd 2022 ymlaen.

Dangosir effaith y newid hwn yn y tabl wedi'i atodi.

Ail Gyllideb Atodol 2022/23

Gwariant OGCC	Cyllideb a Gyflwynwyd (Atodol cyntaf) £000	Newidiadau £000	Cyllideb Ddiwygiedig (Ail Atodol) £000
Cyflogau a chostau cysylltiedig	4,222	(16)	4,206
Adeiladau a chyfleusterau, gan gynnwys prydlesi	171		171
Ffioedd proffesiynol	234		234
Costau TG	250		250
Costau swyddfa	119		119
Teithio, hyfforddi a recriwtio	60		60
Cyfathrebu	65		65
Cyfanswm Gwariant Refeniw	5,121	(16)	5,105
Cyfanswm Incwm	(19)		(19)
Gwariant Refeniw Net	5,102	(16)	5,086
Gwariant Cyfalaf	5		5
Cyfanswm yr Adnoddau sydd eu Hangen	5,107	(16)	5,091
Taliadau dibrisiant ac amorteiddio	70		70
Dibrisiant - asedau ar les	204		204
Taliadau llog – IFRS 16	7		7
Cyfanswm Gwariant Adnoddau	5,388	(16)	5,372
Dibrisiant – cyfanswm	(274)		(274)
Taliadau llog – IFRS 16	(7)		(7)
Newid mewn cyfalaf gweithio – IFRS 16	198		198
Symudiadau eraill nad ydynt yn arian	20		20
Gofyniad Arian Parod gan Gronfa Gyfunol Cymru	5,325	(16)	5,309

Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch Amrywio Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023

Cyhoeddwyd: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3139A2022

Cyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid y Senedd i'w ystyried o dan Reol Sefydlog 20.35.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Lindsay Foyster

Cadeirydd, ar ran **Swyddfa Archwilio Cymru**

Cynnwys

Memorandwm esboniadol	
Cyflwyniad	4
Rheswm dros newid	4
Addasiadau i gyllidebau adnoddau	5
Atodiadau	
Atodiad 1 – Crynodeb o ofynion cyllideb 2022-23 i’w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006	7

Memorandwm esboniadol

Cyflwyniad

- 1 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno amcangyfrif blynyddol o'i hincwm a'i gwariant i Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae'n rhaid i'r pwyllgor cyfrifol archwilio'r Amcangyfrif hwnnw a'i osod gerbron y Senedd ar ôl gwneud unrhyw welliannau sy'n briodol yn ei dyb.
- 2 Cafodd Amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 ei gynnwys yng Nghynnig Cyllideb Blynyddol Llywodraeth Cymru o dan Reol Sefydlog 20.26 a'i gymeradwyo yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ar 8 Mawrth 2022 yn dilyn craffu gan y Pwyllgor Cyllid.
- 3 Roedd y cynnig cyllideb yn awdurdodi Swyddfa Archwilio Cymru i gadw £15.082 miliwn o adnoddau cronrus, a gynhyrchwyd drwy ffioedd a godwyd ar gyrff archwiliedig, gan gyflenwi £8.608 miliwn arall o adnoddau eraill i gefnogi ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn. Gyda'i gilydd, defnyddir y £23.69 miliwn hwn i dalu costau Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- 4 Ym mis Mehefin 2022, fe wnaeth Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid leihau'r alwad ar adnoddau eraill o £354,000 sy'n gysylltiedig â newidiadau i'n trefniadau teithio a chynhaliadau yn 2021-22 a gweithredu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 – Prydlesi (IFRS 16).
- 5 Mae Swyddfa Archwilio Cymru bellach yn ceisio diwygio'r Amcangyfrif cymeradwy ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023.

Rheswm dros newid

Newidiadau i'n swyddfa

- 6 Mae Archwilio Cymru wedi cydnabod ers tro na ellid cyfiawnhau cost ein swyddfa yng Nghaerdydd o ystyried cyfraddau isel o feddiannaeth cyn y pandemig. Ym mis Gorffennaf 2022, yn dilyn gwerthusiad manwl o opsiynau, cytunodd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar argymhelliad i adleoli swyddfa Heol y Gadeirlan i adeiladau sylweddol llai yng Nghwr y Ddinas Caerdydd.
- 7 Ymysg yr opsiynau a ystyriwyd oedd p'un a oedd angen lle swyddfa o gwbl yn y dyfodol, ac a oedd achos dros leoli'r swyddfa y tu allan i Gaerdydd. Gan ystyried profiad o'n prosiectau treialu ein hunain a chyrrff archwilio eraill yn y DU, fe wnaethom gytuno bod angen lle swyddfa i ganiatáu i'n timau archwilio weithio'n fwy effeithiol, ond y byddai lle llai yn fwy cost effeithiol. Roedd diffyg llety addas y tu allan i Gaerdydd ynghyd â chost ac effaith amgylcheddol teithio i staff yn golygu mai swyddfa newydd yng Nghaerdydd oedd yr opsiwn a ffefrir.
- 8 Bydd y symud hwn yn sicrhau arbedion ariannol sylweddol, yn gwella ein perfformiad amgylcheddol ac yn diwallu ein hanghenion busnes esblygol ar gyfer

gweithio cyfoes a mwy clyfar. Rydym yn bwriadu gwneud y symudiad hwn ym mis Mawrth 2023.

- 9 Mae disgwyl arbedion blynyddol o tua £220,000 o'r symudiad hwn. Er mwyn cyflawni'r arbedion hyn, bydd angen buddsoddi ymlaen llaw i gyfarparu swyddfa Cwr y Ddinas yn y flwyddyn ariannol bresennol.
- 10 Nodir isod yr arbedion amcangyfrifedig, o'u cymharu ag aros yn swyddfa Heol y Gadeirlan. Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon hyn, byddai'r buddsoddiad cychwynnol yn cael ei adennill mewn llai na thair blynedd.
- 11 Byddai aros yn Heol y Gadeirlan hefyd yn gofyn am fuddsoddiad mewn gwelliannau diogelwch hanfodol ond ni fyddai'n sicrhau arbedion yn y dyfodol.

Arddangosyn 1: arbedion amcangyfrifedig

	Heol y Gadeirlan			Cwr y Ddinas		
	2022-23	2023-24	Parhaus	2022-23	2023-24	Parhaus
Buddsoddiad Cyfalaf	–	360	–	575	–	–
Costau rhedeg	874	930	930	100	710	710
Net	874	1,290	930	675	710	710
Cost/Arbediad				675	(580)	(220)

- 12 Yn ogystal, mae safle Cwr y Ddinas yn cael ei raddio'n dda iawn gan BREAAAM (Dull Asesu Amgylcheddol Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac mae ganddo Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) gradd B am ei berfformiad amgylcheddol. Rydym wedi adolygu buddion disgwylledig ac wedi amcangyfrif y byddai arbedion allyriadau ynni tua £100,000 (heb gynnwys taliadau sefydlog) net o werth cymdeithasol presennol a 265 tonnell o CO₂e (allyriadau nwyon tŷ gwydr). Bydd y lleoliad hefyd yn gwella'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus gan ei fod agos i Orsafoedd Caerdydd Canolog a Stryd y Frenhines ac yn helpu i annog teithio'n wyrddach, wrth i ni weithio tuag at ein nod ar y cyd ar gyfer sero net. Bydd ei agosrwydd i lwybr beicio a cherdded di-draffig, a beiciau i'w llogi a chyfleusterau cawod hefyd yn annog ac yn hyrwyddo teithio llesol.

Addasiadau i gyllidebau adnoddau

- 13 Fel yr eglurwyd uchod, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ceisio cyflawni cynnydd o £575,000 a £100,000 yn y drefn honn o i'w hadnoddau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2022-23 a £675,000 i'w ofyniad arian parod net.
- 14 Mae angen addasiad heb fod yn arian parod mewn cysylltiad ag IFRS16 o £2,585,000 hefyd – mae hyn at ddibenion cyfrifyddu yn unig.
- 15 Nodir y newidiadau cyllideb cysylltiedig ar gyfer 2022-23 yn **Arddangosyn 2**.

Arddangosyn 2: newidiadau i'r gyllideb 2022-23

	Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23 £'000	Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2022-23 £'000
Adnodd refeniw	7,944	100	8,044
Adnodd cyfalaf	310	575	885
Adnodd cyfalaf (IFRS16)	—	2,850	2,850
Adnoddau cronrus	15,082	—	15,082
Cyfanswm y gwariant	23,336	3,525	26,861
Gofyniad arian net	8,684	675	9,359

Atodiad 1

Crynodeb o ofynion cyllideb 2022-23 i'w cynnwys yng Nghynnig Cyllideb Atodol Gweinidogion Cymru o dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

O dan adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), caiff Gweinidogion symud Cynnig Cyllideb Atodol yn y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodi defnyddio adnoddau, cadw incwm a thynnu arian parod o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer personau perthnasol penodol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru. O ran gwasanaethau a dibenion Swyddfa Archwilio Cymru yn y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023, bydd y Cynnig Cyllidebol yn awdurdodi:

- swm yr adnoddau sydd i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- swm yr adnoddau cronrus i Swyddfa Archwilio Cymru y gellir ei gadw (yn hytrach na'i dalu i'r Gronfa Gyfunol); a'r
- swm y ceir ei dalu allan o'r Gronfa Gyfunol i Swyddfa Archwilio Cymru.

Crynoir y gofynion hyn, a all fod yn amcangyfrifon yn unig oherwydd amrywioldeb ffrydiau incwm, yn **Nhablau 1 a 2** isod.

Tabl 1: crynodeb o ofynion cyllideb amcangyfrifedig 2022-23

	£'000
Adnoddau heblaw adnoddau cronrus i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru wrth gyflawni swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilydwr penodedig llywodraeth leol, ac wrth weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru:	
• Refeniw	8,044
• Cyfalaf	3,735
Adnoddau cronrus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig; adenillion eraill o gostau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; incwm amrywiol o gyhoeddiadau, cynadleddau a darpariaeth gwasanaethau gweinyddol a phroffesiynol a thechnegol i'w defnyddio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru.	15,082
Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus i'w talu yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru.	9,359

Tabl 2: cysoni gofyniad adnoddau â gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru

	Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23 £'000	Ail Amcangyfrif Atodol 2022-23 £'000	Newid net £'000
Cais net am adnoddau – refeniw a chyfalaf	8,254	11,779	3,525
Addasiad heb fod yn arian parod – dibrisiant a thaliadau llog	(704)	(704)	–
Taliadau rhent y brydles	424	424	–
Addasiad heb fod yn arian parod – symudiadau mewn cyfalaf gwaith	710	710	–
Addasiad heb fod yn arian parod IFRS16	–	(2,850)	(2,850)
Gofyniad arian parod net o'r Gronfa Gyfunol i dalu'r symiau net sy'n ddyledus gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn	8,684	9,359	675



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a
galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English.